# MARWNAD

ER

# COFFADWRIAETH

AM Y

PARCHEDIG DAFYDD DAFIS,

*GWEINIDOG YR EFENGYL,*

YN

ABERTAWE, SCETI, A CHLYDACH,

*SIR FORGANWG.*

Yr hwn a ymadawodd a'r byd hwn ar y 26ain o Rhagfyr, yn y flwyddyn 1816.

---

*Yr Ail Argraffiad.*

---

*A GYFANSODDWYD GAN*

HERBERT HERBERT, CWMAMAN.

---

*Y cyfiawn fydd byth mewn coffadwriaeth.*
DAFYDD.

*A'r rhai a droant lawer i gyfiawnder a fyddant fel y ser byth yn dragywydd.*
DANIEL

*A Dafydd a alarnadodd yr Alarnad hon.*
2 SAM. I. 17

---

*Abertawe:*

Argraffwyd gan J. HARRIS, GOLYGYDD SEREN GOMER.

X26530 770

## *MARWNAD, &c.*

O DDYFNDEROEDD maith rhagluniaeth,
Pwy mor ddwfn ydyw hon!
Anchwiliadwy yw ei throion,
Yn rheoli'r byd o'r bron:
Dwyn ei hamcan mae'r hen arfaeth
Trwy'r olwynion hyn i ben,
Nes gorpheno ddwyn duwiolion
Adre'n iach, i'r nefoedd wen.

2

Och! fath newydd trwm a glywais
Wrth deithio'r ddaear yma 'thraw,
Fod angeu glas a'i farwol gleddyf
Wedi danfon saeth i lawr,
I hol adreu un yn rhagor
O'r ffyddlon weision ar y llawr;
'N awr nis gwelaf mwy mo'i wyneb
Hyd fore'r adgyfodiad mawr.

3

DAFYDD DAFIS, o Abertawe,
Hardd godidog oedd ei wedd,
Heddyw'n gorwedd yn y graian,
Obry'n dawel yn y bedd:
Fe'n gadawodd yn yr anial,
Adref aeth trwy'r dw'r a'r tân;
Gorphen wnaeth ei daith drafferthus,
I gânu byth yn Salem lân.

4

DAFIS enwog, wr godidog,
Dewr a doniog yn ei ddydd,

 WG35.5.11

Doeth lefarwr a 'scrifenwr,
Yn gorwedd rhwng y meirw ynghudd;
Gwr 'madroddus, buddiol gweddus,
Pur awyddus yn ei waith;
Cyhoeddai'n daer efengyl dirion
Tra par'odd ar ei ddyrus daith.

5

Ffarwel Dafydd, fe'n gadawodd,
Dianc wnaeth i Seion fryn,
I blith y dyrfa ail-anedig,
Sydd heddyw fry â'u gŷnau'n wyn;
Nofiodd adre', fe dâl adrodd,
Coron gafodd ar ei ben;
'Nawr mae'n cânu i'r Duw a'i carodd,
Ac a'i prynodd ar y pren.

6

Gofid cuddio yn y ddaear
Un mor dyner ag oedd ef,
A dd'wedai'n enwog mewn modd gwresog,
Dros Dywysog mawr y nef;
Sain ei eiriau a gyrhaeddodd
Nes oedd briw mewn llawer bron;
Ond 'nawr mae'n llonydd heb ddim llafar,
Yn gorwedd yn y ddaear gron.

7

Fe ga'dd ei arddel mewn modd urddas,
Harddwych addas yn ei le;
Hu o'i wirfodd yn cyhoeddi
'R iechydwriaeth ydoedd e';
Cywir difrad yn ei fwriad,
Mae'n cael ei daliad draw yn nhre',

Lle mae t'lynau tyn eu tanau
A'u mawl, yn cânu gydâg e'.

8

D'wedai'n uchel am y drefen,
A drefnodd Trindod yn gytun,
Mewn arfaeth fore cyn bod amser,
I gadw gwael golledig ddyn.
Ei dafod oedd fel pin 'scrifenydd,
Buan iawn oedd yn ei ben;
Ond mae heddyw'n ddigon tawel,
Nes seinio udgorn nefoedd wen.

9

Ffarwel, ffarwel anwyl Dafis,
Mi gefais bleser lawer gwaith,
Wrth glywed sain eich llafar mwynaidd,
A rhodio ar hyd y ddaear faith;
Ond ni welaf mwy mo'ch gwyneb,
Yn Ebenezer nac un lle,
Hyd nes delo f' enaid adreu,
Trwy rinwedd gras i ganol ne'.

10

Nid llaweroedd iawn o fisoedd
Aeth ei briod adre' o'i flaen,
Gwedi dyoddef poen a chystudd,
Wrth deithio'r anial yma 'mlaen;
Ond yn awr mae gwedi dianc,
Lle nad oes poen na gofid mwy,
Gydâ'r lluoedd hardd eu gwisgoedd,
I gânu i'r Oen a'i farwol glwy'.

11

Mae'r eglwysi yn galaru
Ynghyd a gwledydd Cymru gyd,

Wrth golli seren oedd mor oleu
A fu Dafis yn ein byd:
Colli tad, a brawd, a chyfaill,
Pwy all draethu'r golled, trwy
Fod geneu Dafis wedi gauad,
Na chlywir mo'i gyffelyb mwy.

12

Cym'rwch gysur fwyn gyfeillion,
F' enaid paid ag ameu dim;
Y Duw a'i cododd ac a'i cadwodd,
Sy'n para eto yn ei rym;
Grym i ninau i riddfanu
'N daer i fynu tua'r ne',
I fod Bugail mawr y defaid
Yn codi arall yn ei le.

13

Yn Llangeler ca'dd ei ordeinio
Yn weinidog 'fengyl Duw,
I borthi'r praidd â gwir wybodaeth,
Tra fu yn eu plith yn byw;
Ugeiniau yno sydd o dystion,
I gael dano farwol friw,
Nes gorfod gwaeddu am ddihangfa
Ynghlwyfau'r Oen sydd fry yn fyw.

14

Oddi yno fe ga'dd ei alw
I *Morriston* a'r Mynydd Bach,
Lle bu'n Weinidog doniol, enwog,
Yn ddiwyd iawn dros ronyn bach,
Gwedi hyny lawr i'r Scety,
Ac Abertawe gydâ hyn,

Clywch hefyd bu'n pregethu
Rhinwedd aberth pen y bryn.

15

Gan drigolion plwyf Llansamblet,
Lle bu'n fynych wrth ei waith,
Gwelir eisieu'r peraidd athro
I'w cysuro ar eu taith;
Plwyf Llanon, lle bu'n off'rynol
I wneud llawer iawn o les,
Gollodd sain y nefol udgorn,
Gynt a ddrylliai furiau pres.

16

Yn Llundain hefyd, mae'n rhaid enwi
Am ei lafur diwyd iawn,
I 'deiladu Tŷ cyfarfod,
A phregethu foreu a nawn;
Lluoedd yno ga'dd eu galw
Trwyddo yn llaw yr Yspryd Glân,
A fydd yn berlau mewn gogoniant,
Gwedi i'r ddaear fyn'd ar dân.

17

Fe fu'n foddion dwyn Cymdeithas
Hoff Genhadol Crist i'n gwlad;
O Lundain daeth i Abertawe,
I daenu'r iechydwriaeth rad;
Yn awr mae Cymru lòn a Lloegr
Mewn un iaith yn uno 'nghyd,
I ddanfon y Cenhadon trosodd,
I ddweud am ras Iachawdwr byd.

18

I'r lle bynag elai Dafis
I gyhoeddi'r 'fengyl lân,